# 20. Y CHWECHED YMADRODD - Gorffennwyd!

**Darllen:** Ioan 19: 30

'*Yna, wedi iddo gymryd y gwin, dywedodd Iesu, 'Gorffennwyd'.'* Gorffennwyd beth? Nid cael diwedd ar ing y groes, nid gorffen tair blynedd o'i weinidogaeth, na diweddu blynyddoedd ei fywyd daearol? Nid 'Gorffennwyd' ond 'Cyflawnwyd' yw ystyr y Roeg gwreiddiol. *Mission accomplished!* Daw'r gri 'Gorffennwyd' atom fel taran sonig wrth iddo dorri drwy'r rhwystrau a godwyd gennym rhyngom ni a Duw. '*Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr, fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun.'* (*John Williams, 1728-1806, Caneuon Ffydd, 347)*

**Gweddi:**
*Molwn ac addolwn di, O Grist:*
*â'th groes a'th werthfawr waed*
*y'n gwaredaist. Amen*.